



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar gyfer

The Mill Child Care Centre Ltd

**5 Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1BX**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

The Mill Child Care Centre Ltd

Enw'r lleoliad	The Mill Child Care Centre Ltd
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	
Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys)	Ffion Roberts
Person â chyfrifoldeb	Gillian Kensall
Nifer y lleoedd	118
Ystod oedran y plant	0-10 oed
Nifer y plant 3 a 4 oed	38
Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar	9
Diwrnodau / amseroedd gweithredu	Rhwng 07:30 a 18:00 (o ddydd Llun i ddydd Gwener)
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Na
Iaith y lleoliad	Saesneg
A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant?	Nac ydy
Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	14 Mawrth 2018
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	Chwefror 2016
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	02/05/2023

Crynodeb

Thema	Dyfarniad
Llesiant	Rhagorol
Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)	Rhagorol
Gofal a datblygiad	Da
Addysg ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)	Rhagorol
Yr Amgylchedd	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Rhagorol

Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Argymhellion

- A1 Datblygu'r broses o storio a labelu adnoddau i hybu annibyniaeth y plant ymhellach

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â hybu llesiant a gofal pob aelod o'r staff, i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

Prif ganfyddiadau

Llesiant: Rhagorol

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi setlo, ac maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Maent yn mynd at yr ymarferwyr am faldod a chysur pan fydd angen hynny arnynt, gan wybod y byddant yn ei gael ar unwaith ac yn ddi-gwestiwn. Mae'r plant yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael ac yn dewis sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Caiff dewisiadau unigol y plant eu parchu drwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Er enghraifft, gall y plant gysgu pan fyddant wedi blino yn hytrach na'u bod yn gwneud hynny ar adegau penodol o'r dydd, a gallant gael diod neu fyrbryd pan fyddant yn teimlo'n llwglyd.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus wrth fynd at ymwelwyr i siarad am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn hyderus iawn wrth fynegi eu dewisiadau a'u hanghenion i'r staff, gan wybod y caiff eu dymuniadau eu parchu. Er enghraifft, pan fydd y plant yn gofyn am gael mynd i chwarae yn yr awyr agored yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd y lleoliad, maent yn cael cymorth i wisgo eu hesgidiau a'u cotiau eto er mwyn iddynt allu gwneud hynny. Pan fydd y plant yn dweud nad ydynt am yfed eu llaeth o'r cwpan a ddarparwyd, mae'r ymarferwr yn mynd ati'n gyflym i roi eu llaeth iddynt yn y poteli sydd orau ganddynt. Mae bron pob un o'r plant yn awyddus iawn i rannu eu cyflawniadau ac i gynnwys yr ymarferwyr yn eu chwarae, gan eu bod yn gwybod y byddant yn ymateb iddynt yn frwdfrydig.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac wedi meithrin cyfeillgarwch cryf â phlant eraill. Er enghraifft, mae'r plant yn cydweithio'n dda i greu garej i'r ceir yn yr ardal adeiladu awyr agored. Maent yn helpu ei gilydd i ddewis rhai o'r deunyddiau modelu sbwriel, ac yn trafod pa rai y gallant eu defnyddio i greu garej cyn mynd ati i'w adeiladu gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant iau yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd wrth chwarae ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau'r staff. Er enghraifft, wrth i'r plant bach chwarae yn y pwl tywod, maent yn cymryd eu tro yn briodol wrth osod tyrau ar gastell tywod. Maent yn rhannu'r adnoddau yn fodlon ac yn dangos i'w ffrindiau'n frwdfrydig pan fyddant yn llwyddo i greu tyrau, gan annog a dathlu cyflawniadau ei gilydd.

Mae bron pob un o'r plant yn awyddus iawn i archwilio eu hamgylchedd ac yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael yn fawr. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn mwynhau dyfrio'r llysiau a blannwyd ganddynt, gan ddefnyddio'r poteli chwistrellu yn effeithiol i chwistrellu dŵr ar y dail, a chanolbwyntio'n dda wrth iddynt lenwi'r jygiau i arllwys dŵr ar y pridd. Mae grŵp arall o blant yn mwynhau treulio amser yn arbrofi â dŵr yn yr ystafell ddosbarth awyr agored. Maent yn cael llawer o hwyl yn ceisio symud siapiau gwahanol i lawr y pibellau drwy arllwys dŵr yn y man cywir cyn dosbarthu'r siapiau i'r grwpiau cywir ar yr hambwrdd. Roedd llawer o chwerthin a sgwrsio hapus i'w clywed yn ystod y gweithgareddau hyn, wrth i'r plant ddangos i'r staff a'u ffrindiau'n llawn cyffro beth roeddent yn ei wneud.

Mae pob plentyn yn cael ei annog a'i gefnogi i wneud pethau drosto'i hun. Mae'r plant hŷn yn cwblhau tasgau hunanofal yn annibynnol, gyda chymorth yn cael ei roi os oes ei angen. Gall y babanod ymarfer sgiliau bwydo eu hunain yn ystod amser cinio ac amser byrbryd, ac maent yn cael digon o amser a lle i wneud hynny'n annibynnol.

Maent hefyd yn cael cymorth i olchi eu dwylo mor annibynnol â phosibl. Mae bron pob un o'r plant yn hapus i helpu i dacluso ar ddiwedd gweithgareddau. Mae pob un o'r plant yn gallu arwain a chyfeirio eu chwarae a dewis adnoddau fel y mynnant gan fod teganau a gweithgareddau yn cael eu gosod mewn ffordd sy'n galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol.

Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol o'u manau cychwyn. Mae bron pob un ohonynt yn frwdfrydig wrth siarad amdanynt eu hunain neu eu ffrindiau, ac maent yn mwynhau trafodaethau ystyrion. Er enghraifft, maent yn siarad am eu hoff liwiau, eu cartrefi a'r llygaid y dydd y maent yn dod o hyd iddynt yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn ymuno mewn cân groeso ac maent yn defnyddio'r Gymraeg i ganu ac i sgwrsio am y tywydd a dyddiau'r wythnos. Maent yn dangos mwynhad wrth wrando ac ymgymryd â thasgau syml mewn ymateb i gyfarwyddiadau, er enghraifft wrth chwilio am loynnod byw yn yr ysgol goedwig a siapiau yn y reis lliw. Mae bron pob un o'r plant yn siarad yn hyderus â'r oedolion a'u ffrindiau ac yn meddu ar sgiliau iaith datblygedig a geirfa eang. Er enghraifft, maent yn mwynhau cymryd rhan mewn sgyrсияu am gestyll, a dod o hyd i fwydod yn yr awyr agored a lindys mewn llyfrau. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio iaith arwyddion ac ymadroddion Cymraeg syml yn hyderus wrth sgwrsio. Mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad ac mae'n hyrwyddo cynhwysiant a dwyieithrwydd yn llwyddiannus. Mae llawer o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau, gan eu dewis yn annibynnol a thrafod y lluniau a'r straeon yn hapus â'u ffrindiau. Maent yn gwneud hyn yn naturiol ym mhob ardal. Er enghraifft, yn yr awyr agored maent yn edrych ar lyfr Cymraeg ac yn trafod y lluniau yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r plant yn meithrin eu sgiliau gwneud marciau yn briodol, dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn defnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu, fel sialc a phensiliau i wneud marciau ystyrion, fel trac rasio â phont.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn llwyddiannus wrth chwarae. Maent yn trafod brigau hir a byr yn ardal y goedwig a faint o fwydydd gwahanol y mae'r lindys yn eu bwyta mewn stori. Mae llawer o'r plant yn cyfrif yn ddibynadwy hyd at ddeg yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon, rhigymau a gweithgareddau cyfrif.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau cydsymud yn dda. Maent yn rhedeg ac yn dringo'n hyderus yn yr awyr agored ac yn defnyddio glud i addurno eu modelau o gestyll â phapur. Maent yn hyderus yn eu hamgylchedd ac yn trin adnoddau yn fedrus. Maent yn defnyddio peli a sboncwyr i feithrin eu sgiliau corfforol ac yn defnyddio pob ardal o'r lleoliad, fel y llethr, i ddringo a rhedeg. Mae bron pob un o'r plant yn arllwys eu diodydd eu hunain yn aeddfed ac yn helpu eu hunain i fyrbryd iach, gan daenu menyn dros eu bara ceirch eu hunain. Mae bron pob un ohonynt yn dewis ble y maent am chwarae yn annibynnol ac yn defnyddio pob ardal yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin sgiliau creadigol yn dda ac yn defnyddio eu dychymyg wrth chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae yn ardal y goedwig, mae'r plant yn defnyddio llinyn i greu leiniau pysgota dychmygol i ddal crancod. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol.

Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen i dynnu lluniau o'r hyn y maent wedi dod o hyd iddo yn yr awyr agored ac yn defnyddio'r llechen ryngweithiol fawr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrif a didoli.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, drwy drafodaethau, straeon, caneuon a gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn canu caneuon Cymraeg ac yn mwynhau dathlu Diwali a'r Pasg, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn dda.

Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn hyderus o ran eu dyletswyddau i amddiffyn plant; maent wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant a chaiff eu gwybodaeth ei diweddarau'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd tîm a sesiynau goruchwyllo staff hefyd. Roedd pob un o'r ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y camau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel os bydd angen drwy gwblhau ymarferion tân rheolaidd. Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf pediatriig cyfredol a chaiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â rhieni. Mae'r ymarferwyr yn annog ffyrdd iach o fyw drwy gynnig digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser yn yr awyr iach. Maent yn hyrwyddo datblygiad corfforol y plant drwy amrywiaeth o weithgareddau lle maent yn ymarfer dringo, cydbwyso a chymryd risgiau priodol. Caiff hylendid da ei hyrwyddo, wrth i'r ymarferwyr annog a helpu pob un o'r plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a charedig. Maent yn trin y plant â pharch ac yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt pan fydd angen. Mae'r ymarferwyr yn annog rhyngweithio cadarnhaol drwy ddefnyddio strategaethau effeithiol. Maent yn dangos enghreifftiau o rhyngweithio cadarnhaol drwy gydol y dydd, gan roi digon o ganmoliaeth i'r plant am fod yn garedig at ei gilydd, cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio technegau tynnu sylw i gynnwys y plant mewn gweithgareddau mewn ffordd gadarnhaol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir mewn ffordd ddigynnwrf wrth esbonio i'r plant pan fydd eu hymddygiad yn amhriodol, er enghraifft pan fydd y plant yn anghytuno am rywbeth wrth roi amser ydy wy ar y bwrdd. Mae ymarferydd yn gofyn yn bwyllog i bob un o'r plant dan sylw pam eu bod yn anhapus, gan roi'r cyfle iddynt ddweud eu dweud. Yna, maent yn dod i gyfaddawd gyda'i gilydd, gan helpu'r plant i deimlo'n hapus ac i deimlo bod y staff wedi gwrandao arnynt cyn iddynt ddychwelyd yn gyflym i chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y gweithgareddau yn amrywiol, gan gynnig cymysgedd da o weithgareddau yn yr awyr agored sy'n annog chwilfrydedd y plant a'u hawydd i archwilio, a gweithgareddau â phwyslais mwy penodol sy'n meithrin sgiliau ysgrifennu, darllen a rhifedd. Mae pob ymarferydd yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion unigol yn effeithiol. Gofynnir am fanylion cynhwysfawr am ddewisiadau ac anghenion unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu'r lleoliad, a defnyddir y manylion hyn i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ysgogol i'r plant. Mae systemau effeithiol ar waith i gael gafael ar gymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn

nodi pan fydd angen cymorth ychwanegol ar blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn rhoi'r cymorth hwn fel y bo angen. Mae ganddynt hefyd bartneriaethau cryf ag asiantaethau allanol ac maent yn cydweithio'n agos â nhw i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae ganddynt bartneriaethau datblygedig cryf ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol â rhieni er mwyn eu hysbysu'n rheolaidd am anghenion a datblygiad eu plentyn. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd drwy ap ar-lein diogel. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am arferion dyddiol y plant, yn ogystal â lluniau a gwybodaeth am llwyddiannau a datblygiad y plant.

Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth ragorol o'r ffordd y mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynnig amrywiaeth effeithiol o gyfleoedd dysgu ysgogol sy'n helpu'r plant i ddatblygu'n dda ym mhob maes, er enghraifft plannu llysiâu a blodau yng ngardd y lleoliad, a gofalu amdanynt wrth iddynt dyfu.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau dysgu pwrpasol ac ysgogol, ac maent yn eu hannog i feithrin amrywiaeth eang o sgiliau ym mhob maes sy'n rhan o'r ddarpariaeth. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau cyffrous i'r plant dan do ac yn yr awyr agored, er enghraifft gan ddefnyddio llythyr yn ardal y goedwig i annog y plant i chwilio am loŷnnod byw.

Un o gryfderau penodol y lleoliad yw'r ffordd y mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn amrywiol, yn ddiddorol ac yn ysgogol i'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn mwynhau amrywiaeth eang a diddorol iawn o gyfleoedd chwarae pwrpasol ac yn helpu'r plant i ddilyn eu diddordebau. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant blannu hadau berwr, trin reis o liwiau gwahanol, a blasu amrywiaeth o ffrwythau gwahanol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd i'r plant brofi syndod a rhyfeddod, er enghraifft drwy wrando ar adar yn canu, gwneud gloŷnnod byw a gofalu am bysgodyn aur y lleoliad. Maent yn annog y plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol am eu chwarae ac yn defnyddio cwestiynau effeithiol er mwyn helpu'r plant i ddeall.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rhagorol i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwynhau'r awyr agored drwy amrywiaeth o brofiadau cyffrous, er enghraifft esgus pysgota am grancod, chwilota am loŷnnod byw a chynnal sesiynau ioga rheolaidd i ddatblygu cryfder corfforol a sgiliau cydsymud. Maent yn helpu'r plant i fynd ar gefn beiciau pedal, chwarae â mwd a datblygu eu sgiliau cydbwysu wrth chwarae â hyder cynyddol. Mae'r ymarferwyr yn gadael i'r plant ymdrin ag arwynebau anwastad a mwynhau cyfleoedd chwarae mentrus dan oruchwyliaeth ofalus yn yr awyr agored. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael eu herio i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac i fwynhau'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo sgiliau cyfathrebu a datrys problemau'r plant yn dda. Maent yn annog y plant i holi ac ateb cwestiynau ac yn gwneud sylwadau sy'n annog y plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, wrth drafod y broses o ddysgu sut i arwyddo geiriau newydd ac wrth drafod gloŷnnod byw, mae'r ymarferwyr yn gadael i'r plant ymuno a rhannu eu profiadau eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant fwynhau llyfrau. Maent yn darllen straeon mewn ffordd gynnes a brwdfrydig, gan alluogi'r plant i ddatblygu cariad at lyfrau a straeon.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu eu hiaith arwyddion a'u sgiliau Cymraeg yn naturiol ac yn gyson yn ystod sesiynau. Mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad am fod y plant yn gwneud cynnydd rhagorol o ran eu sgiliau Cymraeg. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i feithrin annibyniaeth wrth wisgo eu hesgidiau glaw, a thaenu menyn dros eu bara ceirch yn ystod amser byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn hyderus o ran gofynion y Cwricwlwm i Gymru ac maent yn sicrhau bod y plant yn gwneud penderfyniadau pwrpasol am eu chwarae. Maent yn herio'r plant yn fedrus er mwyn iddynt fagu hyder i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd, a cheir cydbwysedd rhagorol o ddysgu dan arweiniad y plentyn. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cofnodi sylwadau defnyddiol am gynnydd wrth i'r plant chwarae ac yn nodi cyfleoedd i feithrin sgiliau'r plant ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni bob dydd, gan sicrhau bod y rhieni yn deall yr hyn y mae eu plant wedi bod yn ei ddysgu yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn defnyddio asesiadau rheolaidd manwl i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd cyffredinol ym mhob maes a'u bod yn dilyn eu diddordebau.

Yr Amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i reoli a monitro diogelwch y plant a lleihau unrhyw beryglon posibl. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith, sy'n nodi unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r risg i'r plant. Caiff yr asesiadau risg hyn eu hadolygu'n rheolaidd, a chaiff yr adolygiadau rheolaidd a gynhelir o unrhyw ddamweiniau sy'n digwydd eu hystyried hefyd. Cynhelir gwiriadau diogelwch rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ardaloedd nac adnoddau yn cynnwys unrhyw beryglon posibl, ac mae'r ymarferwyr yn ofalus wrth sicrhau y caiff ardaloedd eu glanhau a'u clirio'n rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o ddamweiniau posibl.

Mae'r holl ardaloedd chwarae yn gyfforddus ac yn groesawgar, gyda digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r arweinwyr yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant drwy ddangos lluniau a samplau o'u gwaith ar hysbysfyrddau ym mhob rhan o'r feithrinfa. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n dda yn ardaloedd dysgu gwahanol, gydag amrywiaeth dda o adnoddau naturiol a deunyddiau, dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, ceir amrywiaeth eang o focsys, poteli a phacedi wedi'u hailgylchu er mwyn i'r plant greu modelau sbwriel, ynghyd â bocsys darganfod sy'n cynnwys amrywiaeth o frwshys, cribau, drychau a siglwyr cartref i'r plant eu harchwilio. Mae'r arweinwyr yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio lliwiau ac addurniadau naturiol a digyffro yn y feithrinfa, gan gynnig amgylchedd tawel a chartrefol nad yw'n cynhyrfu'r plant yn ormodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol a chyffrous i'r plant, sy'n eu helpu i feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae ceginau mwd ac ardaloedd chwarae tywod a dŵr ar gael i bob grŵp oedran, yn ogystal â chyfleoedd i archwilio creigiau, brigau, canghennau ac ardaloedd plannu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r ystafelloedd chwarae yn cynnwys dodrefn a chyfarpar addas i hyrwyddo annibyniaeth y plant, fel sinciau isel, seddi toiled i'r plant iau a byrddau a chadeiriau isel. Ceir hefyd amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau, sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn helpu'r plant i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol, fel llyfrau, jig-sos, doliau a phosteri.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau diddorol a chyffrous ym mhob ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn briodol i oeddrannau'r plant ym mhob ystafell. Yn yr ystafelloedd chwarae i blant iau, roedd yr ymarferwyr wedi dewis y gweithgareddau ac wedi'u gosod allan yn barod i'r plant ddewis o'u plith. Caiff yr holl deganau ac adnoddau ym mhob rhan o'r lleoliad eu storio ar lefel isel mewn bocsys wedi'u labelu. Fodd bynnag, mae'r print yn fach ar y labeli, sy'n eu gwneud hi'n fwy anodd i'r plant iau ddewis yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff diddordeb y plant yn y teganau a'r gweithgareddau ei gynnal drwy gylchdroi'r teganau yn rheolaidd. Mae hyn hefyd yn eu galluogi i'w glanhau a'u gwirio'n rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol dros waith y lleoliad. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, sy'n helpu i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddiraffferth. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddangos caredigrwydd, magwraeth a gofalu i'r plant. Ceir ymrwymiad rhagorol i gydweithio ym mhob rhan o'r lleoliad, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau.

Mae gan yr arweinwyr drefniadau rhagorol ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, ac mae pob ymarferydd yn ymrwymedig i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau i'r plant. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn nodi llwyddiannau a diweddariadau misol sy'n nodi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y maent am ei ddatblygu ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd rhagorol o'r ymarferwyr a'r adnoddau i gefnogi llesiant, chwarae a dysgu'r plant. Mae systemau arfarnu cryf yn annog proses fyfyrion ac yn nodi meysydd i'w gwella yn llwyddiannus. Caiff yr ymarferwyr eu cefnogi'n barhaus i wella eu sgiliau a'u cymwysterau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn bodloni'r gofynion o ran nifer yr ymarferwyr â chymwysterau addas sydd eu hangen i ofalu am y plant yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac mae'r arweinwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a bod y lleoliad yn gofalu amdano drwy strategaethau rhagorol, fel cylchlythyrau staff, rafflau llesiant misol a thrwy ddangos caredigrwydd rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn hybu llesiant a hyder yr ymarferwyr o ran y Gymraeg drwy ddefnyddio llysgenhadon y Gymraeg, sy'n cynnig strategaethau defnyddiol ac yn rhoi cymorth i bob aelod o'r staff. Mae llysgenhadon y Gymraeg yn ennyn hyder yr ymarferwyr, sy'n eu galluogi i gynnig cyfleoedd ystyrlon i'r plant fagu hyder wrth ddefnyddio'r iaith.

Mae gweithdrefnau rhagorol ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gofalwyr am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu a'u cynnydd. Mae'r rhieni yn cael dyddiaduron dyddiol defnyddiol a diweddariadau anffurfiol rheolaidd. Mae ymweliadau buddiol â'r gymuned leol yn ategu gwaith y lleoliad.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol ac yn ymateb yn ddiwyd ac yn gyflym i gyngor a hyfforddiant a gynigir i'r lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn parhau i ymdrechu i ddatblygu pob agwedd ar y ddarpariaeth. Mae trefniadau pontio ar gyfer y plant sy'n ymuno ag adrannau gwahanol o'r lleoliad yn eu helpu i setlo'n dda. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r ysgolion cynradd lleol ac mae'n gweithio'n agos gyda'r swyddog cyswllt. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi'n effeithiol wrth iddynt symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (<http://arolygiaethgofal.cymru>) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

Rhagorol	Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn
Da	Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae'r cryfderau yn gwrthbwysu'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau
Gwael	Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwysu'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2023

Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb ei Chyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad	Dd/G

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiad arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n [Tudalen arolygon adborth](#)

Dyddiad Cyhoeddi 06/07/2023